



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Canllawiau Atodol i Ofwat ar Godi Tâl

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau Drafft Atodol i Ofwat  
ar Godi Tâl am Ffioedd Datblygwyr, Ffioedd Swmpgyflenwadau a  
Ffioedd Mynediad

Dyddiad cyhoeddi: 21 Tachwedd 2016  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Ionawr 2017

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad chwe wythnos hwn yn ceisio'ch barn am ganllawiau drafft Llywodraeth Cymru i Ofwat, rheoleiddiwr annibynnol dŵr, ar godi tâl.

Mae Deddf Dŵr 2014 yn amlinellu fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio'r arfer o godi tâl o fewn y diwydiant dŵr.

Hoffem glywed eich barn ynghylch canllawiau drafft gan Lywodraeth Cymru i Ofwat ar godi tâl am:

- gysylltiadau newydd i rwydweithiau dŵr a charthffosiaeth (taliadau gan ddatblygwyr)
- cyflenwi a gollwng ar raddfa fawr: a
- mynediad at rwydweithiau cwmnïau dŵr.

Rydym yn croesawu'ch barn a'ch sylwadau, gan gynnwys unrhyw beth yr ydych yn teimlo nad ydym wedi mynd i'r afael ag ef (ond mae croeso ichi gyflwyno sylwadau am faterion eraill hefyd).

## Sut i ymateb

Dylech ymateb i'r ymgynghoriad drwy lenwi'r holiadur sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon.

Fel arall, mae croeso ichi anfon eich sylwadau at y cyfeiriad e-bost isod neu eu hanfon at y cyfeiriad isod.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:  
Y Gangen Ddŵr  
Yr Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [water@wales.gsi.gov.uk](mailto:water@wales.gsi.gov.uk)

Rhif ffôn: 029 2082 6391

## Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	2
2. Gwaith Ofwat .....	4
3. Blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru .....	6
4. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer ffioedd datblygwyr .....	10
5. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer swmpgyflenwad a swmp ollyngiad..	13
6. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer mynediad at rwydweithiau dŵr .....	16
7. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad.....	17
8. Atodiad 1 .....	19
9. Atodiad 2.....	22

## 1. Cyflwyniad

- 1.1. Nod yr ymgynghoriad hwn yw ceisio'ch barn ar ganllawiau codi tâl drafft sy'n ymwneud â ffioedd datblygwyr, swmpgyflenwi a ffioedd mynediad gan Lywodraeth Cymru i Ofwat, rheoleiddiwr economaidd annibynnol y sector dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.
- 1.2. Gosodwyd Canllawiau Codi Tâl i Ofwat (y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y Diwydiant Dŵr) Llywodraeth Cymru gerbron y Cynulliad ar 12 Medi 2016 a disgwylir iddynt ddod i rym ar 22 Hydref 2016. Roedd y canllawiau hyn yn cynnwys egwyddorion lefel uchel ac, yn dilyn ymgysylltiad â rhanddeiliaid, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu rheolau pellach.
  - Mae'r canllawiau codi tâl drafft hyn i Ofwat yn ymwneud â ffioedd a osodir gan ymgwymerwyr perthnasol mewn tri gwahanol faes<sup>1</sup>:
    - ffioedd ar gyfer cysylltiadau newydd â rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth ('ffioedd datblygwr'<sup>2</sup>);
    - ffioedd ar gyfer swmpgyflenwad a swmp ollyngiadau<sup>3</sup>; a
    - ffioedd ar gyfer mynediad at rwydweithiau cwmnïau dŵr<sup>4</sup>.
- 1.1. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ffioedd a delir gan ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth eraill a chan ddatblygwyr eiddo, ond mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ddeiliaid tai unigol dalu ffioedd ar gyfer cysylltiadau newydd â rhwydweithiau dŵr pan fyddant wedi datblygu eu heiddo eu hunain.
- 1.2. Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd yn ddiweddarach) yn rhoi pwerau i Ofwat greu rheolau codi tâl ar gyfer y ffioedd hyn, ac i Weinidogion Cymru i roi canllawiau i Ofwat ar y rheolau hynny, i'r graddau eu bod yn ymwneud â ffioedd a godir gan ymgwymerwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.
- 1.3. Mae gwybodaeth fwy manwl am bob un o'r darpariaethau penodol ar drefniadau codi tâl wedi'i rhestru yn Atodiad 1. Mae'r cyfeiriadau at Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (neu at WIA91) drwy gydol y ddogfen hon yn gyfeiriadau at Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel y'i diwygiwyd gan ddeddfwriaeth ddilynol, gan gynnwys Deddf Dŵr 2014.
- 1.4. Saif y canllawiau hyn ochr yn ochr ag unrhyw ganllawiau eraill y gallai Gweinidogion Cymru nodi bod yn rhaid i Ofwat eu hystyried wrth

---

<sup>1</sup> Yn y canllawiau, mae'r cyfeiriad at ymgwymerwyr perthnasol yn cyfeirio at ymgwymerwyr dŵr ac ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

<sup>2</sup> Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar gynnwys y rheolau dan 144ZA WIA91 [Ffioedd datblygwyr - cysylltiadau]

<sup>3</sup> Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion a gymhwysir mewn rheolau dan 40E WIA91 [Ffioedd swmpgyflenwi]

<sup>4</sup> Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar gynnwys rheolau dan 66E WIA91 [Ffioedd mynediad]

bennu ei reolau codi tâl, gan gynnwys yn benodol y Datganiad Polisi Strategol i Ofwat sydd i ddod.

- 1.5. Cyn cyflwyno'r canllawiau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r 'personau perthnasol' ar ddrafft o'r canllawiau arfaethedig. Dyma'r personau perthnasol:
  - yr Ysgrifennydd Gwladol;
  - y Cyngor Defnyddwyr Dŵr;
  - unrhyw ymgymerwyr perthnasol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y Canllawiau arfaethedig;
  - unrhyw drwyddedeion cyflenwi dŵr neu drwyddedeion carthffosiaeth sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y Canllawiau arfaethedig; ac
  - unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn nhyb y Gweinidog.
- 1.1. Mae ymgynghoriadau anffurfiol eisoes wedi'u cynnal ag amrywiaeth o'r rhai â buddiant yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Awst 2016, ac rydym yn croesawu safbwyntiau ar bob agwedd ar y canllawiau codi tâl drafft a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn.
- 1.2. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 16 Ionawr 2017. Byddwn yn ystyried ac yn gweithredu ar sylwadau pan fydd yn briodol i wneud hynny. Ein nod yw cyflwyno'r Canllawiau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddechrau 2017, a hynny am gyfnod o 40 niwrnod. Os na fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu na ddylai'r Canllawiau hyn gael eu cyflwyno erbyn diwedd y cyfnod hwn, bydd y Canllawiau Codi Tâl yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 1.3. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno canllawiau codi tâl cyffredinol i Ofwat yn ogystal ag ymgynghori ar ganllawiau penodol a fydd yn gymwys i reolau Ofwat ar ffioedd datblygwyr sy'n ymwneud ag ymgymerwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr<sup>5</sup>.

---

<sup>5</sup> Ar gael yn:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/496044/chargin-g-guidance-ofwat-2016.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/496044/chargin-g-guidance-ofwat-2016.pdf)

## 2. Gwaith Ofwat

- 2.1. Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yw'r rheoleiddiwr economaidd annibynnol ar gyfer y sector dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae Deddf Dŵr 2014 yn cyflwyno pwerau newydd i Ofwat o ran cyflwyno rheolau codi tâl sy'n ymwneud â faint o dâl y gall ymgwymerwyr perthnasol ei godi am wasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth.
- 2.2. Nodir dyletswyddau rheoleiddio cyffredinol Ofwat yn Adran 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91)<sup>6</sup>. Mae'n rhaid i Ofwat:
- Ddatblygu'r amcan defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys diogelu buddiannau defnyddwyr, pan fo'n briodol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol rhwng y rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau masnachol, neu'n rhan o weithgareddau masnachol, sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth.
  - Sicrhau bod swyddogaethau'r ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn cael eu cyflawni'n briodol ledled Cymru a Lloegr.
  - Sicrhau bod cwmnïau sydd wedi'u penodi dan Bennod 1, Rhan 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel ymgwymerwyr perthnasol yn gallu ariannu'r gwaith o gyflawni'r swyddogaethau hynny'n briodol (yn benodol, drwy sicrhau enillion rhesymol ar eu cyfalaf).
  - Sicrhau bod y gweithgareddau a gaiff eu hawdurdodi gan drwydded cyflenwr dŵr trwyddedig ac unrhyw swyddogaethau statudol y bydd yn rhaid iddo eu gwneud o ganlyniad i'r drwydded yn cael eu cyflawni'n briodol.
  - Datblygu'r amcan cadernid<sup>7</sup>
- 2.3. Yn unol â'r dyletswyddau hyn, mae'n rhaid i Ofwat hefyd:
- Hyrwyddo cynildeb ac effeithlonrwydd gan ymgwymerwyr perthnasol yn eu gwaith.
  - Sicrhau nad oes unrhyw ffafriaeth neu wahaniaethu diangen yn cael ei ddangos gan yr ymgwymerwyr hyn wrth bennu ffioedd.
  - Sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu mewn cysylltiad ag unrhyw weithgareddau heb eu rheoleiddio a wneir gan ymgwymerwyr.
  - Cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy.

---

<sup>6</sup> (<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1991/56/contents>), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003 (<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/37/contents>).

<sup>7</sup> Dyma'r amcan cadernid a nodir – sicrhau cadernid hirdymor systemau ymgwymerwyr dŵr a systemau carthffosiaeth ymgwymerwyr carthffosiaeth o ran pwysau amgylcheddol, twf y boblogaeth a newidiadau mewn ymddygiad defnyddwyr, a sicrhau bod ymgwymerwyr yn cymryd camau at y diben o alluogi iddynt ddiwallu'r angen am gyflenwad dŵr a darpariaeth gwasanaethau carthffosiaeth i ddefnyddwyr yn yr hirdymor.

- 2.4. Yn ogystal, mae'n rhaid i Ofwat ystyried egwyddorion arferion rheoleiddio gorau. Caiff y dyletswyddau hyn eu hategu gan ddyletswyddau cyffredinol o ran yr amgylchedd a hamdden (gweler, er enghraifft, adrannau 3 a 4 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991). Mae gan Ofwat hefyd amrywiaeth o swyddogaethau rheoleiddio dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 a Deddf Menter 2002.
- 2.5. Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Ofwat) i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' i'r graddau ei fod yn gyson â gweithrediad priodol y swyddogaethau hynny. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio 'hyrwyddo cadernid ecosystemau'. Mae'r ddyletswydd yn disodli dyletswydd adran 40 yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC 2006), o ran Cymru, ac yn gymwys i'r awdurdodau hynny yr oedd y ddyletswydd flaenorol yn berthnasol iddynt.
- 2.6. Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod canllawiau strategol i Ofwat er mwyn tynnu sylw at flaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer ymgymrwyr perthnasol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i adnoddau naturiol a gwasanaethau dŵr yfed yng Nghymru. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru geisio sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd.



### 3. Sefyllfa Ddeddfwriaethol a Fframwaith Pholisi Llywodraeth Cymru

- 3.1. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dŵr yw sicrhau bod Cymru yn parhau i fod ag amgylchedd dŵr ffyniannus a reolir yn gynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau llwyddiannus a bioamrywiaeth. Rydym eisiau i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf sy'n cynnig gwerth am arian, â bod y dŵr yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithlon, ddiogel a pharchus gan bawb.
- 3.2. Mae Ofwat yn chwarae rhan bwysig wrth ein cefnogi i wireddu ein gweledigaeth, wrth wneud ei benderfyniadau rheoleiddio economaidd annibynnol. Mae Penodau 4, 5 a 6 o'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno ein canllawiau drafft i Ofwat o ran ei reolau codi tâl ar gyfer ffioedd datblygwyr, swmpgyflenwi a ffioedd mynediad. Wrth ddehongli'r canllawiau codi tâl ym mhob un o'r penodau hynny, dylai Ofwat ystyried fframwaith deddfwriaethol a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan ystyried hefyd gynnwys y Bennod hon. Mae'r fframwaith hwnnw'n cynnwys:
- Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru<sup>8</sup> a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)<sup>9</sup>
  - Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
  - Y Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Ofwat<sup>10</sup> a gyhoeddwyd dan adran 2A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan adran 40 o Ddeddf Dŵr 2003) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014.
  - Y Datganiad Polisi Strategol sydd i ddod gan Lywodraeth Cymru dan Ddeddf Dŵr 2014.
  - Canllawiau Codi Tâl i Ofwat (y rheoleiddiwr economaidd) 2016
- 3.3. Dylai Ofwat hefyd ystyried ein Canllawiau Codi Tâl yng nghyd-destun deddfwriaethau perthnasol eraill, megis cyfraith cystadleuaeth.

#### Ystyried polisiau sy'n benodol i Gymru

- 3.4. Fel y nodwyd uchod, mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i Ofwat weithredu yn unol â fframwaith deddfwriaethol a pholisi Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i unrhyw wahaniaethau rhwng polisiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gael eu hadlewyrchu'n llawn mewn polisiau ac arferion rheoleiddio, ac mae'n rhaid sicrhau nad yw cwsmeriaid Cymru yn cael eu heffeithio mewn modd andwyol.

---

<sup>8</sup> <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/water-strategy/?skip=1&lang=cy>

<sup>9</sup> Gweler Atodiad 2

<sup>10</sup> <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/social-environmental-guidance-water/?skip=1&lang=cy>

- 3.5. Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r fframwaith rheoleiddio presennol ac unrhyw gynigion i'w ddiwygio gael eu llywio a'u gosod yng nghyd-destun polisiâu Llywodraeth Cymru a Deddfwriaeth Cymru, a dylai unrhyw dystiolaeth gefnogol fod yn seiliedig ar ddata gan ymgymerywyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu o fewn ffiniau daearyddol Cymru yn unig. Pan fydd newidiadau arfaethedig yn gymwys i Gymru a Lloegr, dylid darparu papurau ymgynghori a nodiadau eglurhaol ar wahân ar gyfer ymgymerywyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr, hyd yn oed pan fydd y cynigion yr un peth neu'n debyg. Dylid cynhyrchu dau fersiwn o godau a chynlluniau codi tâl – un i ymgymerywyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac un i ymgymerywyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr. Bydd hyn yn darparu eglurdeb i'r Llywodraeth, yr ymgymerywyr a'r defnyddwyr o ran beth yn union sy'n gymwys i ymgymerywyr yng Nghymru a Lloegr.
- 3.6. Mae sefydlogrwydd a rhagweladwyedd mewn biliau yn gallu bod yn bwysig iawn i gwsmeriaid sy'n gorfod cynllunio'n ofalus ar gyfer costau i ddod. Rydym yn disgwyl i Ofwat ystyried hyn wrth bennu rheolau codi tâl.
- 3.7. Dylai Ofwat sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir gan ymgymerywyr dŵr a charthffosiaeth am eu ffioedd yn ddigonol i ganiatáu i gwsmeriaid ddeall sut y pennwyd eu ffi gyffredinol a gallu ystyried dewisiadau i wella pa mor effeithlon y maen nhw'n defnyddio dŵr a lleihau cost eu bil yn y dyfodol. Dylid cyfathrebu'r ffioedd mewn modd a fydd yn galluogi cwsmeriaid i fod â syniad rhesymol o gost eu bil cyn iddynt ei dderbyn.
- 3.8. Bydd angen i Ofwat osod y rheolau ar ffioedd yng nghyd-destun polisiâu Llywodraeth Cymru o ran diwygio'r farchnad. Rydym yn disgwyl i Ofwat barhau i gadw golwg ar effaith diwygio'r farchnad a chymryd camau, pan fydd angen, i sicrhau bod y ffioedd a delir gan gwsmeriaid a wasanaethir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn parhau i fod yn deg ac yn fforddiadwy.

## **Y Strategaeth Ddŵr i Gymru**

- 3.9. Rydym wedi paratoi'r Canllawiau drafft hyn yng nghyd-destun dwy o brif themâu'r Strategaeth Ddŵr i Gymru:
- Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid
  - Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnesau
- 3.10. Disgwylir i Ofwat gydbwyso anghenion hirdymor amgylchedd cynaliadwy a chadarn â'r angen i sicrhau y ceir digon o adnoddau dŵr dibynadwy gyda chymhelliannau sy'n cynnig y cydbwysedd cywir rhwng gwobrau a chosbau yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r amgylchiadau yng Nghymru.

### ***Darparu Gwasanaethau Rhagorol i Gwsmeriaid***

- 3.11. Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod canolbwyntio'n gryf ar gwsmeriaid wrth wraidd darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru.
- 3.12. Dylai Ofwat fabwysiadu dull rheoleiddio cymesurool sy'n cydnabod y costau a'r beichiau y gall rheoleiddio eu rhoi ar ymgwymerwyr perthnasol a chwsmeriaid. Er mwyn hwyluso ffioedd sefydlog, dylai Ofwat geisio gosod ffioedd mewn modd cyson yn gyffredinol, gydag unrhyw newidiadau yng Nghymru yn cael eu nodi'n glir ac yn unol ag ymgynghoriad priodol â'r ymgwymerwyr perthnasol a'r cwsmeriaid a effeithiwyd.
- 3.13. Rydym yn disgwyl i Ofwat ac ymgwymerwyr perthnasol gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir i Ofwat ac ymgwymerwyr dŵr gydymffurfio â'r Safonau Cymraeg a osodir arnynt maes o law gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur yn nodi na ddylai'r Gymraeg, yng Nghymru, gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgwymerwyr gyhoeddi eu cynlluniau codi tâl yn ddwyieithog.

### ***Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau***

- 3.14. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i fynd i'r afael ag adnoddau naturiol trwy ddilyn dull gweithio hirdymor, 25 mlynedd a rhagor a fydd yn cefnogi ein pwyslais ar ddatblygu cynaliadwy. Trwy wella a rheoli ein hamgylchedd naturiol yn fwy holistaidd, byddwn nid yn unig yn diogelu ein lles amgylcheddol, ond byddwn hefyd yn cynnig y buddion economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl yn yr hirdymor.
- 3.15. Mae defnyddio adnoddau dŵr mewn modd effeithlon yn hanfodol i ddiogelu cadernid hirdymor cyflenwadau dŵr a'r amgylchedd. Gwnaeth Deddf Dŵr 2014 gyflwyno dyletswydd sylfaenol sy'n gofyn i Ofwat ddiogelu cadernid hirdymor systemau dŵr a charthffosiaeth a darpariaeth gwasanaethau i gwsmeriaid; gan ystyried pwysau amgylcheddol, twf y boblogaeth a newidiadau mewn ymddygiad defnyddwyr. Rydym yn disgwyl i Ofwat ystyried ei ddyletswyddau a sicrhau bod gan ymgwymerwyr perthnasol amrywiaeth o fesurau ar waith i reoli adnoddau dŵr mewn ffyrdd cynaliadwy. Dylai hyn gynnwys cynyddu'r effeithlonrwydd wrth ddefnyddio dŵr a lleihau'r galw am ddŵr er mwyn lleihau'r pwysau ar adnoddau dŵr.
- 3.16. Mae'n rhaid i Ofwat hefyd ystyried ei ddyletswydd tuag at ddatblygu cynaliadwy. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), mae gan Ofwat ddyletswydd i ddefnyddio ac arfer ei bwerau a'i ddyletswyddau yn y modd y mae'n credu sydd orau wrth gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy. Er mwyn sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid wrth wraidd penderfyniadau ynghylch y sector dŵr, dylai

Ofwat ystyried diffiniad Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy, fel y'i nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- 3.17. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat sicrhau bod asesiadau cymesurol wedi'u cynnal o effaith unrhyw newidiadau arfaethedig i'w fframwaith rheoleiddio ar gyfer y sector dŵr a charthffosiaeth ar gwsmeriaid a buddsoddwyr.
- 3.18. Gall codi tâl chwarae rhan wrth ddiogelu defnydd economaidd ac amgylcheddol effeithlon o adnoddau, gan annog arloesedd a sicrhau bod buddion amgylcheddol yn cael eu costio'n briodol. Cynigir croes-gymorthdaliadau sylweddol yn y sector dŵr, oherwydd dibyniaeth pob cwsmer ar adnoddau digonol a rhwydwaith cadarn. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweld achos cyffredinol dros wneud unrhyw symudiad eang tuag at gael gwared â chostau rhwydwaith cyffredinol. Dylai costau gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth gael eu dosrannu'n gyfartal i gwsmeriaid ar draws y rhwydwaith (gan ystyried ein polisiau ar godi tâl cymdeithasol, mesur ac ati) – ni ddylai cwsmeriaid wynebu unrhyw ostyngiadau neu gynnydd mewn pris am fod y costau o ddarparu gwasanaethau dŵr neu garthffosiaeth iddynt trwy'r rhwydwaith cyhoeddus yn uwch neu'n is. Mewn llawer o achosion, ni fyddai cael gwared â'r croes-gymorthdaliadau hyn yn cynnig rhyw lawer o fudd ymarferol a gallai arwain at filiau ansefydlog ac annisgwyladwy, gan greu enillwyr a chollwyr heb gyflwyno unrhyw fudd polisi mesuradwy. Fodd bynnag, fe allai fod yn fuddiol i ddefnyddio prisiau arwyddol wedi'u targedu mewn rhai achosion i wella cydnabyddiaeth o gostau amgylcheddol.
- 3.19. Mae dull gweithio'r Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS) yn ganolog i reoli dŵr wyneb yn y dyfodol, a gellir eu defnyddio i helpu i gydymffurfio a deddfwriaeth Cymru, y DU ac Ewrop o ran yr amgylchedd ac ansawdd dŵr. Gall cynlluniau SuDS leihau cyfaint a llif y gormodedd o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'r seilwaith carthffosiaeth. Gall ymgymerwyr fabwysiadu nodweddion a seilwaith SuDS yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol. Dylid rhagdybio'n gyffredinol y bydd unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol ar seilwaith carthffosiaeth a draenio newydd a chyfredol yn gwneud cymaint o ddefnydd â phosibl o dechnegau SuDS, heblaw pan ellir dangos y byddai peidio â gwneud hynny'n arwain at gostau ychwanegol ac na fyddai'n cyfiawnhau'r buddion amgylcheddol. Dylai trefniadau fod ar waith i fabwysiadu a chynnal a chadw SuDS, a dylai ymgymerwyr fynd i'r afael â'r rhain, pan fo'n bosibl, a'u hariannu trwy'r cynlluniau ffioedd.
- 3.20. Wrth osod y rheolau codi tâl yr eir i'r afael â nhw yn yr ymgyngoriad hwn, dylai Ofwat ystyried pa drefniadau pontio sydd eu hangen i leihau'r beichiau ar bawb sy'n rhan o'r broses bontio o'r gofynion presennol i'r gofynion codi tâl newydd.

#### 4. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer ffioedd datblygwyr

- 4.1. Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn nodi bod angen i ymgwymerwyr perthnasol godi tâl am gysylltiadau newydd â'r rhwydwaith ac am waith cysylltiedig. Defnyddir y term 'ffioedd datblygwyr' i gyfeirio at y symiau a godir gan ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth am gysylltiadau newydd â rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth ac am ddarparu unrhyw seilwaith cysylltiedig. Gall 'Datblygwyr' gynnwys datblygwyr, cwsmeriaid hunan-adeiladu a chwsmeriaid hunan-osod.
- 4.2. Mae'r canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer ffioedd datblygwyr yn gymwys i ddefnydd domestig o wasanaethau dŵr a charthffosiaeth, naill ai mewn cartref neu eiddo nad yw'n gartref. Mae'n ymwneud â'r mathau canlynol o reolau codi tâl y gall Ofwat eu cyflwyno<sup>11</sup>:
  - Hunan-osod a mabwysiadu seilwaith dŵr (adran 51CD);
  - Hunan-osod a mabwysiadu seilwaith carthffosiaeth (adran 105ZF);
  - Cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth a gwaith cysylltiedig (adran 144ZA).
- 4.3. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai holl ffioedd datblygwyr, gan gynnwys ffioedd ceisiadau a ffioedd seilwaith, a'r rheolau codi tâl cysylltiedig, adlewyrchu'r amcanion a'r egwyddorion a nodwyd yn y canllawiau hyn.
- 4.4. Yn ogystal ag ystyried blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd mewn rhan arall o'r ddogfen hon, rydym yn credu y dylid cymhwyso'r egwyddorion lefel uchel canlynol i ffioedd datblygwyr:
  - Symlirwydd a thryloywder;
  - Sefydlogrwydd, rhagweladwyedd a phrydlondeb;
  - Tegwch ac adlewyrchedd cost; a
  - Chynaliadwyedd amgylcheddol.
- 4.5. Yn ymarferol, rydym yn cydnabod y gallai fod gwrthdaro rhwng yr egwyddorion hyn. Er enghraifft, gallai ffioedd sefydlog a gyhoeddwyd ymlaen llaw fodloni'r ddwy egwyddor gyntaf. Fodd bynnag, gallai diffyg hyblygrwydd ffi sydd wedi'i gosod ymlaen llaw fod â goblygiadau ar adlewyrchedd cost, o ran y ffaith y gallai adlewyrchu costau a ragwelwyd ond nid costau nas ragwelwyd.
- 4.6. Un dull y gallai Ofwat ei ddefnyddio yw rhoi pwysau cyfartal ar bob un o'r egwyddorion hyn wrth osod rheolau codi tâl, ond mae trafodaethau a gynhaliwyd hyd yma â rhanddeiliaid yn awgrymu bod tryloywder, rhagweladwyedd a phrydlondeb yn flaenoriaethau uchel iawn i

---

<sup>11</sup> Mae'r cyfeiriadau at adrannau i gyd yn ymwneud â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd).

gwsmeriaid yng Nghymru. Byddai'r nodweddion hyn yn galluogi datblygwyr i fuddsoddi â mwy o hyder a gallai leihau nifer yr achosion o ddadleuon hir dros ffioedd, a fyddai'n cyflwyno buddion i ddatblygwyr, ymgwymerwyr, Ofwat ac economi Cymru.

- 4.7. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cymhwyso egwyddorion tegwch ac adlewyrchedd cost yn golygu y dylai datblygwyr dalu am gostau safle rhesymol eu cysylltiadau â systemau dŵr a charthffosiaeth. Dylai datblygwyr hefyd dalu am gostau rhesymol unrhyw angen ôl-ddilynlol i ymestyn seilwaith y rhwydwaith cyfredol neu i ddarparu seilwaith newydd (ar y safle datblygu ac oddi arni). Ni ddylai cwsmeriaid presennol croes-gymorthdalau datblygiad newydd. Yn yr un modd, ni ddylai datblygwyr dalu am unrhyw gostau a grëir wrth fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a oedd yn bodoli eisoes o ran capasiti neu allu.
- 4.8. Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid am dryloywder, rhagweladwyedd a phrydlondeb, rydym yn credu y dylai rheolau codi tâl ofyn i ymgwymerwyr yng Nghymru gynnig dewis tariff rhagosodedig a ddylai fod â'r nodweddion a nodir isod. Er mwyn i ymgwymerwyr allu ymateb yn hyblyg i wahanol anghenion, ac o bosibl, anghenion newidiol, eu cwsmeriaid, awgrymir eu bod yn ymgynghori â'u cwsmeriaid, yn ystyried eu safbwyntiau ac yn agored i gynnig dewisiadau tariff eraill yn ogystal â'r dewis tariff rhagosodedig os ydynt yn dymuno. Dylai'r dewisiadau tariff rhagosodedig hynny hefyd gyd-fynd â'r egwyddorion a nodwyd uchod.

### **Dewis tariff rhagosodedig**

- 4.9. O dan y dewis tariff rhagosodedig, byddai ymgwymerwyr yn cynnig dewislen o ffioedd datblygwyr a bennir ymlaen llaw, sy'n seiliedig ar strwythur prisio syml, megis cost fesul annedd, sy'n cynnwys yr holl gostau ar y safle ac oddi ar y safle. Golyga natur y dull hwn na fyddai'r prisiau'n adlewyrchu costau sy'n benodol i'r safle, ond byddai angen iddynt fod yn seiliedig ar gostau cyffredinol. Rydym ni'n credu mai cyfartalu'r costau ar draws ardal yr ymgwymerwr sy'n debyg o fod y ffordd symlaf a mwyaf tryloywder.
- 4.10. Er mwyn sicrhau bod ffioedd yn rhesymol ac yn deg, ac er mwyn cyflawni sefydlogrwydd o ran ffioedd, credir bod angen i Ofwat sicrhau bod y refeniw o ffioedd y dewis tariff rhagosodedig yn cyd-fynd â'r costau perthnasol a rhesymol ar draws ardaloedd yr ymgwymerwyr dros gyfnod priodol o amser – gallai hyn fod yn gyfnod treigl o bum mlynedd, er enghraifft. Er mwyn magu hyder yn y ffioedd hyn a lleihau'r potensial am ddadleuon, rhaid i'r broses hon fod yn dryloyw a bod iddi fethodoleg glir, ochr yn ochr â mecanweithiau adrodd ac archwilio priodol.
- 4.11. Mae'r strwythur hwn o ffioedd wedi'i symleiddio, sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog, yn golygu y bydd datblygwyr yn talu prisiau uwch na'r costau sy'n benodol i'r safle ar gyfer rhai datblygiadau ac yn talu

prisiau is na'r costau sy'n benodol i'r safle ar gyfer datblygiadau eraill. Fodd bynnag, bydd y dull hwn yn cyflawni mwy o dryloywder a rhagweladwyedd.

- 4.12. Rydym yn cydnabod bod y dull hwn yn cyfaddawdu adlewyrchedd cost i ryw raddau, ond noder bod y system bresennol yn gallu arwain at anghysondebau mawr rhwng costau a ddyfynnir a'r ffioedd y mae'r datblygwyr yn eu talu mewn gwirionedd. Dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'r prisiau arwyddol yn y costau a ddyfynnir yn adlewyrchiad o'r gost mewn unrhyw achos.
- 4.13. Er mwyn cyflwyno elfen bellach o adlewyrchedd cost, credir y byddai'n briodol i ddiffinio rhai amgylchiadau lle y mae'r costau ychwanegol am gysylltu â'r rhwydwaith mor uchel (neu mor isel) fel bod y cysylltiadau hynny'n syrthio y tu allan i'r drefn codi tâl cyffredinol ar gyfer y tariff rhagosodedig a amlinellir uchod. Gallai'r amgylchiadau eithriadol hyn gael eu diffinio, er enghraifft, gan bellter o'r rhwydweithiau sy'n bodoli neu gan faint y costau ychwanegol sydd uwchlaw'r ffioedd safonol. Diben dull o'r fath fyddai anfon prisiau arwyddol mewn achosion lle byddai datblygiad newydd yn gostus tu hwnt o ran cysylltu â rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth ac i sicrhau nad yw datblygwyr eraill yn gorfod croes-gymorthdalau datblygiadau o'r math hwn.

### **Materion eraill**

- 4.14. Wrth lunio rheolau ar gyfer ffioedd datblygwyr, mae nifer o faterion pellach wedi'u crybwyll gan randdeiliaid yr ydym yn credu y bydd angen i Ofwat eu hystyried:
- a oes gan unrhyw reolau codi tâl arfaethedig wahanol oblygiadau ar gyfer ceisiadau adeilad sengl ac adeiladau lluosog ac, os felly, a ddylai rheolau codi tâl gael eu cymhwyso'n wahanol er mwyn adlewyrchu'r effeithiau hyn;
  - arferion priodol ar gyfer bondiau diogelwch, gan ystyried y gwahanol sefyllfa yng Nghymru o ran mabwysiadu seilwaith<sup>12</sup>;
  - trefniadau pontio rhwng trefniadau codi tâl, fel y gall datblygwyr ac ymgwymerwyr reoli eu perthnasoedd a chynllunio â hyder ac eglurder; ac
  - Adrodd, monitro ac archwilio ffioedd, er mwyn sicrhau tryloywder ac eglurder ffioedd, a magu hyder yn y system rheolau codi tâl, yn ogystal â lleihau nifer yr anghydfodau.

---

<sup>12</sup> Mae Adran 42 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 wedi'i rhoi ar waith yn llawn yng Nghymru. Golyga hyn ei fod yn orfodol i fabwysiadu pob draen carthffosiaeth a draen ochrol yn ardal weithredu carthffosiaeth Dŵr Cymru. Mae'n rhaid i ddatblygwyr (neu unrhyw berchennog/meddiannydd arall) roi cytundeb adran 104 WIA91 ar waith cyn cysylltu â'r rhwydwaith cyhoeddus. Cytundeb yw hwn rhwng yr ymgwymerwr carthffosiaeth a'r datblygwr sy'n rhagnodi y bydd y system garthffosiaeth neu'r draen ochrol arfaethedig yn cael ei hadeiladu i safon briodol er mwyn cael ei mabwysiadu fel rhan o'r system garthffosiaeth gyhoeddus a gaiff ei chynnal a chadw gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth perthnasol.

- 4.15. Wrth wneud ei benderfyniadau, dylai Ofwat gofio ein bod yn disgwyl i ymgwymerwyr dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ymgysylltu'n effeithiol ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a datblygwyr pan gyflwynir cynigion datblygu.

## **5. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer swmpgyflenwad a swmp ollyngiad**

### **Swmpgyflenwad**

- 5.1. Cytundebau swmpgyflenwi yw cytundebau rhwng ymgwymerwyr dŵr penodedig ar gyfer cysylltu a throsglwyddo dŵr o un ymgwymerwr i'r llall. Mae'r rhain yn bwysig oherwydd gallant fod yn fecanwaith ar gyfer gwella cadernid rhwydwaith, gallant gynorthwyo ymgwymerwyr dŵr i gyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu gwasanaethau dŵr yn fwy effeithlon, a gallant fod yn fodd i benodeion newydd ddarparu dŵr i'w cwsmeriaid.
- 5.2. Dan adran 40E o WIA91, mae gan Ofwat y pŵer i wneud rheolau codi tâl ar gyfer cytundebau swmpgyflenwi. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyflwyno canllawiau i Ofwat ar gynnwys y rheolau codi tâl hynny dan adran 40I o WIA1991. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau dan adran 144ZE o WIA91 i roi canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sy'n gymwys i'r rheolau codi tâl hyn.
- 5.3. Wrth osod rheolau codi tâl o ran swmpgyflenwadau, dylai Ofwat ystyried y cydbwysedd cywir o gymhellion er mwyn sicrhau bod ffioedd ar gyfer swmpgyflenwadau yn adlewyrchu cost lawn y fasnach, gan gynnwys costau amgylcheddol ac effeithiau cadernid y cyflenwadau dŵr ar gwsmeriaid Cymru os bydd cynnydd yn y galw neu os cyfyd amgylchiadau eithriadol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat sicrhau na chaiff swmpgyflenwadau trawsffiniol eu cymorthdal gan gwsmeriaid Cymru.
- 5.4. Dylai ffioedd swmpgyflenwi fod yn dryloyw ac yn rhagweladwy pan fo'n bosibl. Dylai Ofwat ystyried sut i gyflawni hyn, gan gynnwys pa un a ddylai rheolau codi tâl ddarparu canllawiau clir ar sut y dylai costau gael eu mesur ac ar sut y dylai costau cyffredinol gael eu dyrannu i'r swmpgyflenwad a pha un a ddylai'r ffioedd a/neu'r dulliau o gyfrifo'r ffioedd hynny gael eu cyhoeddi gan ymgwymerwyr.
- 5.5. Mae llawer o'r cytundebau swmpgyflenwi sy'n bodoli eisoes yn drefniadau hirdymor sydd wedi bod ar waith ers llawer o flynyddoedd. Wrth osod rheolau codi tâl o ran swmpgyflenwadau, dylai Ofwat ystyried trefniadau pontio ac, yn benodol, pa un a ddylai rheolau codi tâl newydd fod yn gymwys i drefniadau sy'n bodoli eisoes a sut y byddai modd cymhwyso'r rhain.



## Swmp ollyngiad

- 5.6. Cytundebau swmp ollwng yw cytundebau rhwng ymgwymerwyr carthffosiaeth i wneud prif gysylltiad ag un o systemau carthffosiaeth yr ymgwymerwyr. Gelwir y cytundebau hyn yn 'gytundebau prif gysylltiad carthffosiaeth' yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac maen nhw'n gyfatebol â chytundeb swmpgyflenwi ar gyfer dŵr.
- 5.7. O dan adran 110F o WIA91, mae gan Ofwat y pŵer i lunio rheolau codi tâl ar gyfer cytundebau prif gysylltiad carthffosiaeth ac mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyflwyno canllawiau i Ofwat ar gynnwys y rheolau codi tâl hynny. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau dan adran 144ZE o WIA91 i roi canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sy'n gymwys i'r rheolau codi tâl hyn.
- 5.8. Wrth osod rheolau codi tâl o ran swmp ollyngiadau, dylai Ofwat ystyried y cydbwysedd cywir o gymhellion er mwyn sicrhau bod ffioedd ar gyfer swmpgyflenwadau yn adlewyrchu cost lawn y fasnach, gan gynnwys costau amgylcheddol ac effeithiau cadernid y gwasanaethau carthffosiaeth ar gwsmeriaid Cymru os bydd cynnydd yn y galw neu os cyfyd amgylchiadau eithriadol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat sicrhau na chaiff swmp ollyngiadau trawsffiniol eu cymorthdalau gan gwsmeriaid Cymru.
- 5.9. Dylai ffioedd swmp ollyngiadau fod yn dryloyw ac yn rhagweladwy pan fo'n bosibl. Dylai Ofwat ystyried sut i gyflawni hyn, gan gynnwys pa un a ddylai rheolau codi tâl ddarparu canllawiau clir ar sut y dylai costau gael eu mesur ac ar sut y dylai costau cyffredinol gael eu dyrannu i'r swmp ollyngiad a pha un a ddylai'r ffioedd a/neu'r dulliau o gyfrifo'r ffioedd hynny gael eu cyhoeddi gan ymgwymerwyr. Mae llawer o'r cytundebau swmp ollwng sy'n bodoli eisoes yn drefniadau hirdymor sydd wedi bod ar waith ers llawer o flynyddoedd. Wrth osod rheolau codi tâl o ran swmp ollyngiadau, dylai Ofwat ystyried trefniadau pontio ac, yn benodol, pa un a ddylai rheolau codi tâl newydd fod yn gymwys i drefniadau sy'n bodoli eisoes a sut y byddai modd cymhwyso'r rhain.
- 5.10. Ni ddylai ymgwymerwyr gytuno i gytundeb swmp ollwng oni bai bod modd dangos na fyddai'n niweidiol i'w cwsmeriaid nac i amgylchedd neu ecosystem y dalgylch ac ardal benodedig y cwmni derbyn ac allforio cyfrifol. Pan fydd y datrysiad a ffefrir gan yr ymgwymerwyr yn cynnwys cytundeb swmp ollyngiad ag ymgwymerwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, dylid rhoi'r cyfle i Weinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru roi sylwadau.
- 5.11. Yr ymgwymerwr gollwng a ddylai dalu am y costau a ddaw yn sgil unrhyw gytundeb, heblaw pan fydd buddion i'r derbynnydd; gall y costau gael eu talu gan y ddau gwmni yn gymesur i'r buddion disgwyliedig. Bydd angen i'r costau a ddaw yn sgil unrhyw gytundeb gael eu hamcangyfrif yn gywir a'u hadennill yn llawn o'r cytundeb.

Dylai hyn gynnwys, pan fo'n berthnasol, seilwaith adeiladu/cynnal a chadw, trin dŵr, gwaith i atal neu drwsio unrhyw ddifrod amgylcheddol, gwaith sydd angen ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw gostau ôl-ddilynol.

- 5.12. Ni ddylai unrhyw gytundeb niweidio'r amgylchedd na'r rhwydwaith.
- 5.13. Dylai fod rhesymeg glir dros unrhyw gyfnod cytundeb sy'n para mwy na 25 mlynedd. Dylid ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru cyn y bydd ymgymerwyr yn cyhoeddi unrhyw estyniad i gytundeb neu cyn y bydd cytundeb yn cael ei adnewyddu.
- 5.14. Mae llawer o'r cytundebau swmp ollwng sy'n bodoli eisoes yn drefniadau hirdymor sydd wedi bod ar waith ers llawer o flynyddoedd. Wrth osod rheolau codi tâl o ran swmp ollyngiadau, dylai Ofwat ystyried trefniadau pontio ac, yn benodol, pa un a ddylai rheolau codi tâl newydd fod yn gymwys i drefniadau sy'n bodoli eisoes a sut y byddai modd cymhwyso'r rhain.

## 6. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer mynediad at rwydweithiau dŵr

- 6.1. Mae Adran 66E o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn nodi y gall ymgymerwyr dŵr godi tâl ar drwyddedeion dŵr i ddefnyddio rwydweithiau ymgymerwyr dŵr i ddarparu dŵr i gwsmeriaid trwyddedeion dŵr.
- 6.2. Mae'n rhaid i Ofwat gyhoeddi rheolau ar y ffioedd dan adran 66E WIA91 ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, dan adran 144ZE o'r Ddeddf, gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sydd wrth wraidd y rheolau codi tâl hynny. Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru, dan adran 66ED, ddarparu canllawiau i Ofwat ar gynnwys rheolau codi tâl o'r fath<sup>13</sup>.
- 6.3. Wrth osod rheolau codi tâl o ran mynediad, dylai Ofwat ystyried y cydbwysedd cywir o gymhellion er mwyn sicrhau bod y ffioedd yn adlewyrchu cost lawn y mynediad, gan gynnwys yr effeithiau ar gwsmeriaid cyfredol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat sicrhau na chaiff mynediad ei gymorthdalau gan gwsmeriaid cyfredol.
- 6.4. Dylai ffioedd mynediad fod yn dryloyw ac yn rhagweladwy a dylai Ofwat geisio cyfyngu'r cyfleoedd am anghydfod yn y dyfodol sy'n seiliedig ar wahanol ddehongliadau o'r rheolau codi tâl, cyn belled â bod hynny'n bosibl. Dylai Ofwat ystyried gwahanol ffyrdd o gyflawni hyn, gan gynnwys sut y dylai'r ffioedd a/neu'r dulliau o gyfrifo'r ffioedd hynny gael eu cyhoeddi; a thrwy sicrhau bod unrhyw reolau codi tâl ar fynediad yn darparu canllawiau clir ar sut y dylid mesur costau a sut y dylai costau cyffredinol gael eu dyrannu ar gyfer mynediad. Dylai Ofwat hefyd fod yn eglur ynghylch perthnasedd y rheolau codi tâl i gyflenwadau cyfunol.
- 6.5. Wrth osod rheolau codi tâl o ran mynediad, dylai Ofwat ystyried trefniadau pontio ac, yn benodol, pa un a ddylai rheolau codi tâl newydd fod yn gymwys i drefniadau sy'n bodoli eisoes a sut y byddai modd cymhwyso'r rhain. Dylai Ofwat hefyd ystyried trefniadau gwirioneddol neu arfaethedig ar gyfer rheolau sy'n ymwneud â thelerau ar wahân i bris mewn cytundebau mynediad, megis codau adran 66DA, er mwyn sicrhau bod y rheolau codi tâl yn gyson â'r gofynion hynny.

---

<sup>13</sup> O ran cyflenwadau trawsffiniol, mae'n rhaid i'r canllawiau gael eu cyflwyno ar y cyd â Llywodraeth y DU.

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### **Cwestiwn 1:**

Rhowch eich barn ar y canllawiau arfaethedig i Ofwat ar y ffioedd datblygwyr a nodwyd yn adran 4.

### **Cwestiwn 2:**

A ydych chi'n credu y dylid rhoi pwysau cyfartal i bob un o'r egwyddorion a nodwyd ym mharagraff 4.4 wrth osod ffioedd, neu a ydych chi'n cytuno y dylid rhoi mwy o bwyslais ar dryloywder, rhagweladwyedd a phrydlondeb wrth wneud penderfyniadau am reolau codi tâl?

### **Cwestiwn 3:**

A ydych chi'n cytuno y dylai'r holl ffioedd datblygwyr, gan gynnwys ffioedd ceisiadau a ffioedd seilwaith, a rheolau codi tâl cysylltiedig, adlewyrchu'r amcanion a'r egwyddorion a nodwyd yn y canllawiau hyn? A ddylai'r ffioedd ceisiadau a'r ffioedd seilwaith gael eu cynnwys yn y strwythurau codi tâl symlach y cyfeirir atynt ym Mhennod 4?

### **Cwestiwn 4:**

A ydych chi'n credu bod y dull o ofyn am dariff rhagosodedig a'r hyblygrwydd i gynnig tariffau eraill (paragraff 4.8) yn briodol?

### **Cwestiwn 5:**

Rhowch eich barn ar y tariff rhagosodedig arfaethedig.

### **Cwestiwn 6:**

Mae Paragraff 4.14 yn crybwyll nifer o faterion y mae angen i Ofwat eu hystyried wrth osod rheolau codi tâl ar gyfer ffioedd datblygwyr.

- a. A ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o ganllawiau i Ofwat ar bob un o'r pwyntiau hyn? Os felly, beth ddylai'r canllawiau hynny gynnwys?
- b. A oes materion eraill y dylid eu cynnwys yn y rhestr hon o faterion?

**Cwestiwn 5:**

Rhowch eich barn ar ba un a fyddai'n ddefnyddiol i Ofwat gyflwyno cynllun codi tâl ar gyfer swmpgyflenwad a/neu swmp ollyngiad.

**Cwestiwn 6:**

Rhowch eich barn ar y canllawiau arfaethedig i Ofwat ar ffioedd swmpgyflenwad a nodwyd yn adran 5.

**Cwestiwn 7:**

Rhowch eich barn ar y canllawiau arfaethedig i Ofwat ar ffioedd swmp ollyngiad a nodwyd yn adran 5.

**Cwestiwn 8:**

Rhowch eich barn ar y canllawiau arfaethedig i Ofwat ar reolau codi tâl am fynediad a nodwyd yn adran 6.

Nodwch eich ymatebion yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i gadw'ch ymateb yn ddiennw, ticiwch yma:

---

## Atodiad 1

### Deddf Dŵr 2014 – fframwaith newydd ar gyfer codi tâl

Cyflwynodd Deddf Dŵr 2014 nifer o newidiadau i'r ddeddfwriaeth i gefnogi amcanion polisi trosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector dŵr. Roedd hyn yn cynnwys fframwaith newydd i reoli'r gwaith o reoleiddio ffioedd dŵr a charthffosiaeth. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau newydd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a dyletswydd arnynt i lunio canllawiau codi tâl i Ofwat, gan osod fframwaith polisi ar gyfer dull Ofwat o reoleiddio ffioedd.

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar yr egwyddorion sydd angen i Ofwat eu cymhwyso wrth osod:

- rheolau dan adran 66E o ran y ffioedd y mae ymgwymerwyr dŵr yn eu codi ar drwyddedeion cyflenwi dŵr;
- rheolau dan adran 117I<sup>14</sup> o ran y ffioedd y mae ymgwymerwyr carthffosiaeth yn eu codi ar drwyddedeion carthffosiaeth;
- rheolau dan adran 143B o ran y cynlluniau ffioedd a gyhoeddir gan ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth;

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar yr egwyddorion y mae'n rhaid i Ofwat eu cymhwyso wrth bennu'r darpariaethau ar gyfer:

- rheolau dan 40E o ran y ffioedd a godir gan ymgwymerwr dŵr dan gytundeb swmpgyflenwad ag ymgwymerwr arall a phenodeion mewnosodedig;
- rheolau dan adran 51CD o ran y ffioedd a godir gan ymgwymerwr dŵr dan gytundeb ar gyfer mabwysiadu prif bibell ddŵr neu bibell wasanaeth dŵr ar ddyddiad diweddarach;
- rheolau a gyhoeddir yn unol â rheoliadau dan adran 66M a osodir dan gytundeb cyflenwi dŵr;
- rheolau dan adran 105ZF o ran ffioedd a godir gan ymgwymerwyr carthffosiaeth dan gytundeb ar gyfer mabwysiadu carthffos, draen neu waith ar gael gwared â charthffosiaeth ar ddyddiad diweddarach;
- rheolau dan adran 110F o ran y ffioedd y gallai ymgwymerwr carthffosiaeth eu codi ar ymgwymerwr arall neu benodai mewnosodedig dan gytundeb prif gysylltiad;
- rheolau dan adran 144ZA o ran ffioedd y gallai ymgwymerwyr dŵr ac ymgwymerwyr carthffosiaeth eu codi ar gyfer darparu a chysylltu â phrif bibellau dŵr, carthffosydd cyhoeddus a rhai seilweithiau cysylltiedig.

Yn ogystal, gallai Gweinidogion Cymru hefyd gyflwyno canllawiau cyffredinol ar yr egwyddorion y mae'n rhaid i Ofwat eu cymhwyso wrth osod rheolau ar gyfer ffioedd a allai gael eu codi gan ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth neu drwyddedion cyflenwi dŵr neu garthffosiaeth mewn dogfennau eraill (e.e. amodau trwydded, contractau tybiedig, canllawiau anstatudol ac ati).

Bydd rheolau codi tâl Ofwat yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer o ran ymgwymerwyr perthnasol i ddweud wrth Ofwat i beidio â chyhoeddi'r rheolau, er enghraifft, pan na fydd y rheolau'n gyson â pholisi Llywodraeth Cymru. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau diwygiedig, noda'r Ddeddf y dylai Ofwat adolygu'r rheolau codi tâl perthnasol ac, os bydd angen, eu diwygio.

Yn ogystal â'r datganiad trosfwaol hwn o bolisiâu ac egwyddorion, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau pellach mewn rhai achosion o ran cynnwys y trefniadau, y

---

<sup>14</sup> Heb eu datganoli i Gymru ar hyn o bryd

dyletswyddau a'r pwerau codi tâl penodol, sy'n ganllawiau mwy manwl ar bob un o'r materion trefniadau codi tâl penodol a restrwyd uchod. Mewn llawer o ardaloedd, gallai'r datganiad trosfwaol ar yr egwyddorion a gyhoeddwyd yma fod yn ddigonol yn ein tyb ni, ond mewn ardaloedd eraill, mae'n bosibl y byddwn yn credu bod angen mwy o fanylion ar y cynnwys yn ddiweddarach. Er enghraifft, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer yn adran 144ZD i gyhoeddi canllawiau ar gynnwys y rheolau ar ffioedd ar gyfer cysylltiadau y gallai ymgwymerwyr perthnasol eu cyflwyno i ddatblygwyr.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar gynnwys y rheolau dan adran 143B y mae'n rhaid i Ofwat eu cymhwyso.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar gynnwys y rheolau dan adran 144ZA.

### **Crynodeb o bwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau i Ofwat ar ffioedd**

	WIA91 (fel y'i diwygiwyd)	WA14
<b>Dyletswyddau</b>		
Mae'n <u>rhaid</u> i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar yr <u>egwyddorion</u> sydd wrth wraidd y rheolau codi tâl a gyhoeddir gan Ofwat dan 66E [ <b>Ffioedd mynediad</b> ]	144ZE	38
Mae'n <u>rhaid</u> i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr <u>egwyddorion</u> sydd wedi'u cymhwyso yn y rheolau ar gynlluniau ffioedd dan 143B [ <b>Cynlluniau ffioedd</b> ]	144ZE(1)(c)	38
Mae'n <u>rhaid</u> i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau o ran cynnwys y rheolau dan 144ZA [ <b>Ffioedd datblygwyr – cysylltiadau</b> ]	144ZD(1) – (2)	17
<b>Pwerau</b>		
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar yr <u>egwyddorion</u> y mae'n rhaid i Ofwat eu cymhwyso wrth bennu cynnwys dogfennau eraill a gynhyrchir gan Ofwat ynghylch ffioedd [ <b>Canllawiau cyffredinol ar ffioedd</b> ]	144ZE(4)	38
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar gynnwys rheolau dan 66E [ <b>Ffioedd mynediad</b> ]	66ED(1)	A. 2(5)
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar <u>gynnwys</u> rheolau codi tâl a gyhoeddir dan 143B [ <b>Cynlluniau ffioedd</b> ]	143E(1)	16
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr <u>egwyddorion</u> sy'n gymwys i reolau dan 144ZA [ <b>Ffioedd datblygwyr – cysylltiadau</b> ]	144ZE(2)	38
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr <u>egwyddorion</u> sy'n gymwys i reolau dan 40E [ <b>Ffioedd swmpgyflenwi</b> ]	144ZE(2)	38
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar <u>gynnwys</u> rheolau codi tâl a gyhoeddir dan 40E [ <b>Ffioedd swmpgyflenwi</b> ]	40I	8
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr <u>egwyddorion</u> sy'n gymwys i reolau dan 110F [ <b>Ffioedd cysylltu â'r brif system garthffosiaeth</b> ]	144ZE(2)	38
<u>Gall</u> Gweinidogion gyflwyno canllawiau i Ofwat ar <u>gynnwys</u> rheolau dan 110F [ <b>Ffioedd cysylltu â'r brif system garthffosiaeth</b> ]	110J(1)	9
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr	144ZE(2)	38

	WIA91 (fel y'i diwygiwyd)	WA14
<u>egwyddorion</u> sy'n gymwys i reolau dan 51CD [ <b>Ffioedd ar gyfer mabwysiadu seilwaith dŵr</b> ]		
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar <u>gynnwys</u> rheolau dan Adran 51CD [ <b>Ffioedd ar gyfer mabwysiadu seilwaith dŵr</b> ]	51CG	10
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr <u>egwyddorion</u> sy'n gymwys i reolau dan 105ZF [ <b>Ffioedd ar gyfer mabwysiadu seilwaith carthffosiaeth</b> ]	144ZE(2)	38
<u>Gall</u> Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau o ran <u>cynnwys</u> rheolau dan 105ZF [ <b>Ffioedd ar gyfer mabwysiadu seilwaith carthffosiaeth</b> ]	105ZI	11
<u>Gall</u> Gweinidogion gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr <u>egwyddorion</u> a gymhwysir gan reolau codi tâl yn unol â rheoliadau dan 66M [ <b>Cytundebau cyflenwi dŵr</b> ]	144ZE(2)(c)	38



## Atodiad 2

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod saith nod sy'n darparu gweledigaeth a fframwaith a rennir ar gyfer ei gweithgarwch. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod wedi cymhwyso'r pum ymddygiad allweddol wrth wneud penderfyniadau, trwy'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rydym eisiau i Ofwat weithio tuag at y saith nod a chymryd sylw o'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni ei waith.

Saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

1. Cymru lewyrchus – cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau yr amgylchedd byd-eang ac felly yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth â sgiliau ac addysg dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n rhoi cyfleoedd i gael swyddi, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith sy'n gweddu iddynt.
2. Cymru gydnerth – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella'r amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
3. Cymru iachach - Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
4. Cymru sy'n fwy cyfartal – Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
5. Cymru o gymunedau cydlynus – Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a all hynny wneud cyfraniad cadarnhaol i les byd-eang.

5 ymddygiad allweddol:

- **Hirdymor:** Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.
- **Atal problemau:** Sut gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- **Integreiddio:** Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithio:** Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) mewn ffyrdd a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.
- **Cynnwys:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.